# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 2

GOFYNION CWRICWLWM

*Gofynion cwricwlwm*

### 24 Meysydd dysgu a phrofiad a sgiliau trawsgwricwlaidd

(1) Rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu—

(a) sy'n cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad, gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad, a

(b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddisgyblion, neu blant.

(3) Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyd-fynd â Rhan 1 o Atodlen 1, ac eithrio pan fo is-adran (4) yn gymwys.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu wedi ei gwneud—

(a) ar gyfer disgyblion mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol;

(b) ar gyfer plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 24 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Os yw'r cwricwlwm yn gymwys i ddisgyblion sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi, rhaid iddo gynnig i'r disgyblion hynny ddewis o addysgu a dysgu o fewn pob maes dysgu a phrofiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 24(1)(2)(3)(4) mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**I3** A. 24(1)(2)(3)(4) mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(a)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 24 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 24 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
- s. 24 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)
- s. 24(1)(2)(3)(4) coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(a)